# CA3 - 'Return Journey' - Canllaw i Athrawon

**Wedi'i arwain gan gyflwyniad PowerPoint

Bydd y tasgau'n galluogi'r dysgwyr i gwmpasu'r canlynol:

**Llafaredd**

- ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio
- amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir ... yn eu cyd-destun

**Darllen**

- defnyddio ystod o strategaethau, e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl
- defnyddio'u gwybodaeth am y canlynol:
  - tarddiadau a theuluoedd geiriau
  - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
  - cynnwys a chyd-destun

  i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt
- dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a'u defnyddio'n ddethol
- defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr

**Ysgrifennu**

- dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol
- addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi
- gwneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r pwnc
- wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben

## Tasg 1

Rhowch gopïau o'r siartiau WEDd i'r dysgwyr eu llenwi gan nodi:

- Beth maen nhw'n ei wybod yn barod am y blitz;
- Beth maen nhw eisiau ei wybod am y blitz;

Ewch drwy'r ffeithiau/ delweddau sy'n gysylltiedig â'r blitz yn Abertawe.

## Tasg 2

Dosbarthwch gopïau o'r darn o 'Return Journey'.

Ar y copi o'r darn, dylai'r dysgwyr ei anodi gan edrych ar unrhyw ddefnydd o'r canlynol:

- cysylltiadau â digwyddiadau'r blitz
- defnydd o gymariaethau
- defnydd o ddelweddau marwolaeth
- cysylltiadau â lle/lleoliad.

## Tasg 3

Gan ddefnyddio'r arweiniad yn y cyflwyniad, dylai'r dysgwyr drafod beth sy'n gwneud adroddiad papur newydd effeithiol. Yna dylent edrych ar yr enghraifft o erthygl a ddarparwyd a thrafod pwy, beth, ble, pryd, pam a sut. Dylid annog y dysgwyr i anodi'r enghraifft.

## Tasg 4

Gan ddefnyddio'r cyflwyniad, gofynnwch i'r dysgwyr nodi lle caiff y gwahanol nodweddion trefniadol fel penawdau, colofnau ac ati eu dangos yn y cyflwyniad.

## Tasg 5

Y dysgwyr yn cwblhau'r daflen cynllunio ar gyfer y dasg ysgrifennu mewn parau.

## Tasg 6

Y dysgwyr yn gorffen dasg ysgrifennu ac yn llenwi'r adran dwy seren a dymuniad ar y daflen gynllunio am eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

## Tasg 7

Y dysgwyr yn dychwelyd at eu siartiau WEDd ac ychwanegu at yr adran 'Beth rydych chi wedi'i ddysgu?'